

Hydref 2016

Marwolaethau yn y Ddalfa
Cwestiynau a Holir yn Aml i
Deuluoedd Dioddefwyr



Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

Pan gefais fy mhenodi yn Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn 2013, dywedais y byddai Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud profiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol yn haws ac yn well, ac roeddwn wedi cydnabod y gwelliannau y medrid eu gwneud yn y ffordd rydym yn cyfathrebu gyda dioddefwyr. Rwy'n gwybod sut y gall un profiad gwael o ganlyniad i gyfathrebu dryslyd a digydymdeimlad gan y CPS danseilio hyder rhywun yn y system gyfan.

Rydym angen hyder y rhai hynny rydym yma i'w gwasanaethu. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd rhywun yn marw yn y ddalfa.

Pan fydd rhywun yn marw yn nalfa'r wladwriaeth, bydd eu teulu a'u ceraint - yn hollol gywir - yn disgwyl i'r system cyfiawnder troseddol gynnal ymchwiliad teg, trylwyr, tryloyw. Yn yr un modd, dylent ddisgwyl cyfathrebu clir â chydymdeimlad, a thriniaeth barchus ar bob achlysur.

Mae adeiladu dealltwriaeth y cyhoedd, eu hymddiriedaeth a'u hyder yn ein dulliau o benderfynu yn hanfodol. Rwy'n gobeithio bydd y llyfryn hwn yn llwyddo i egluro'r prosesau sydd mewn lle gan y CPS a'i bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol ynghylch marwolaethau yn y ddalfa. Mae cyhoeddiad hirach, 'Deaths in Custody: a Guide to the Role of the CPS' ar gael hefyd, ac yn cynnig mwy o fanylder ar rai o'r prosesau y cyfeirir atynt yma.

Alison Saunders CB

Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus

A yw'r llyfryn hwn ar fy nghyfer i?

Mae'r llyfryn hwn wedi ei baratoi gan y CPS, ac mae'n cynnig trosolwg o'r prosesau all ddilyn marwolaeth person yn y ddalfa. Mae wedi ei anelu yn bennaf at unrhyw un sydd wedi colli un annwyl yn nalfa'r wladwriaeth, neu yn dilyn cyswllt gyda'r heddlu. Fodd bynnag, y gobaith yw bydd yr wybodaeth a geir yn y llyfryn o ddiddordeb i unrhyw un â diddordeb yn y CPS a'r system gyfiawnder troseddol ehangach. Mae'n dweud wrthy ch am rolau a chyfrifoldebau y rhai hynny sydd yn ymchwilio i farwolaethau yn y ddalfa, ac yn cynnig cyngor ymarferol i berthnasau agos yr un fu farw (a ystyrir yn 'ddioddefwyr' yn yr achosion hyn).

Beth yw 'Marwolaeth yn y Ddalfa'?

Mae diffiniad y CPS o 'Farwolaeth yn y ddalfa' yn cynnwys marwolaeth tra yn nwylo'r heddlu, mewn ysbytai diogel, dalfeydd i fewnfudwyr a dalfeydd diogel i bobl ifanc. Rydym hefyd yn ystyried marwolaethau a ddigwyddodd mewn cysylltiad â gweithredodd yr heddlu (p'un ai bod yr un fu farw yn dechnegol 'yn y ddalfa' ai peidio). Mewn termau real, gall hyn olygu unrhyw farwolaeth y gellir ei chysylltu'n uniongyrchol â chyswllt gyda'r heddlu megis saethu angheuol gan yr heddlu.

Nid yw marwolaethau sydd yn digwydd mewn damweiniau ffordd yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi digwydd yn nalfeydd yr heddlu.

Rwyf wedi cael gwybod am farwolaeth aelod o'm teulu neu ffrind i mi yn y ddalfa. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd union drefn y digwyddiadau yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r farwolaeth. Am y rheswm hwn, gwneir pob ymdrech i sefydlu achos y farwolaeth. Gall hyn olygu cwest. Os, wrth geisio canfod achos y farwolaeth, bydd yn ymddangos fel petai trosedd wedi digwydd, bydd ymchwiliad troseddol yn dechrau. Gallwch ddisgwyl i'r ymchwilwyr gysylltu â chi y pryd hynny.

Pwy fydd yn penderfynu sut y bu fy anwylid farw?

Os yw'n ymddangos bod y farwolaeth yn un dreisgar neu annaturiol, neu os nad oes modd penderfynu ar achos y farwolaeth, caiff ei chyfeirio at y crwner. Swyddog cyfreithiol yw'r crwner, wedi ei benodi gan yr awdurdod lleol yn yr ardal lle mae ei lys ef/ei llys hi. Gweithdrefn gyfreithiol yw hon i sefydlu'r amgylchiadau pan fu rhywun farw. Wrth wneud ei ymholiadau/hymholiadau, bydd y crwner yn hel y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad troseddol yn ogystal â'r dystiolaeth o'i ymchwiliad/hymchwiliad ei hun.

A yw cwest yr un peth â post-mortem?

Na. Archwiliad meddygol o'r un fu farw yw post-mortem, i benderfynu ar union achos y farwolaeth. Er y gall y crwner fynnu cynnal post-mortem fel rhan o'r cwest, prosesau ar wahân ydynt.

Beth sy'n digwydd mewn cwest? Fel y galarwr, oes gofyn i mi wneud unrhyw beth?

Mae arweiniad llawn ar broses cwest ar gael ar-lein yn <https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide>. Yn ogystal, mae gwybodaeth gyffredinol ddefnyddiol ar beth i'w wneud yn dilyn marwolaeth ar wefan y Llywodraeth ei hun, yn <https://www.gov.uk/after-a-death/overview>

A fydd canlyniad y cwest yn effeithio ar benderfyniad y CPS i gyhuddo ai peidio?

Na. Er bod y cwest yn ymchwiliad o fath, mae'n annibynnol o Wasanaeth Erlyn y Goron. Gan amlaf bydd y crwner yn atal y cwest dros dro nes bod unrhyw ymchwiliad troseddol wedi ei gwblhau.

Beth am yr ymchwiliad troseddol; pwy fydd yn ei gynnal?

Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r farwolaeth. Os oedd y farwolaeth wedi digwydd mewn carchar, neu mewn lleoliad arall ar wahân i leoliad heddlu, yr heddlu fydd yn cynnal yr ymchwiliad. Os yw'r farwolaeth wedi digwydd yn swyddfa'r heddlu, neu yn dilyn cyswllt gyda'r heddlu, caiff yr ymchwiliad ei gynnal gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC). Mae'r IPCC yn hollol annibynnol o'r heddlu a'r CPS. Gellir canfod gwybodaeth am sut mae'r IPCC yn cynnal eu hymchwiliadau ar eu gwefan (<https://www.ipcc.gov.uk>)

Os, yn ystod yr ymchwiliad, yw'n ymddangos bod torri deddfwriaeth y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi arwain at y farwolaeth, fe all y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) hefyd wneud ymholiadau. Gellir canfod gwybodaeth am waith yr HSE ar eu gwefan

(<https://www.hse.gov.uk>)

Pryd fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ymwneud?

Bydd y CPS ond yn ymwneud mewn amgylchiadau penodol. Yn ystod camau cyntaf yr ymchwiliad, gall yr ymchwiliwr ofyn am gyngor cyfreithiol oddi wrth uwch gyfreithwyr cymwys arbenigol o'r CPS.

Yn ystod yr ymchwiliad bydd y CPS a'r ymchwiliwr yn cydweithredu'n agos i sicrhau bod ymchwiliad trylwyr yn digwydd. Os yw'r CPS yn ystyried nad oes unrhyw ragolwg o erlyniad yn erbyn un neu bob un o'r rhai dan amheuaeth, gall gynghori'r ymchwiliwr. Yn y pen draw yr ymchwiliwr sydd yn penderfynu dechrau, parhau neu roi terfyn ar yr ymchwiliad.

Pan fydd yr ymchwiliad cychwynnol wedi ei gwblhau, gall yr ymchwilwyr ofyn i'r CPS benderfynu a ddylid dwyn cyhuddiadau troseddol cysylltiedig â'r farwolaeth. Gelwir hyn yn 'benderfyniad cyhuddo'. Y CPS yn unig fedr benderfynu a ddylai'r un dan amheuaeth wynebu cyhuddiadau ai peidio (ar wahân i doriadau yn neddfwriaeth iechyd a diogelwch; y Gweithgor Iechyd a Diogelwch sydd yn gyfrifol am hyn).

Beth yw ystyr 'wynebu cyhuddiadau'? A sut mae'r CPS yn penderfynu?

Ystyr 'wynebu cyhuddiadau' yw sefyll prawf mewn llys am drosedd. Wrth benderfynu a ddylid erlyn ai peidio, mae'n rhaid i erlynydd y CPS benderfynu a oes yna ddigon o dystiolaeth yn erbyn y diffynnydd ar gyfer rhagolwg gwirioneddol o euogfarn ai peidio. Gelwir hyn yn 'brawf tystiolaethol' ac mae'n rhan hanfodol o'r broses o ystyried. Os yw'r erlynydd yn fodlon bod digon o dystiolaeth yn bodoli, bydd yn ystyried a fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd. Gelwir hyn yn brawf 'budd i'r cyhoedd'.

Gyda'i gilydd, mae'r profion tystiolaethol a budd i'r cyhoedd yn ffurfio prawf dwy ran sydd wedi ei gosod yn y Cod ar Gyfer Erlynwyr y Goron, y gellir ei weld yn llawn yn <https://www.cps.gov.uk/publications/code-for-crown-prosecutors/decision.html>. Dyma'r unig brofion fydd yn cael eu defnyddio wrth wneud y penderfyniad hwn.

O ystyried difrifoldeb yr achosion hyn, bydd cyfreithwyr y CPS yn aml yn gofyn am gyngor bargyfreithwyr profiadol iawn pan yn gwneud penderfyniad. Yn ogystal â hyn bydd y DPP yn adolygu pob achos yn bersonol ar gyfer eu cymeradwyo.

Yn ogystal â chyuddiadau a ddygir gan y CPS, gall y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) erlyn hefyd os ydynt yn credu bod troseddau wedi eu cyflawni yn erbyn Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974.

A ddygir cyhuddiadau yn erbyn unigolyn yn ogystal â'r sefydliad lle digwyddodd y farwolaeth?

Bydd y cyhuddiadau yn dibynnu ar y dystiolaeth a gesglir yn ystod yr ymchwiliad. Mewn achosion o farwolaeth yn y ddalfa, mae'n bosibl erlyn unigolyn neu sefydliad a enwir, megis heddlu. Sefydliad yn unig all wynebu cyhuddiadau o ddynladdiad corfforaethol.

A gaf fi gyfle i gyfarfod ag erlynydd y CPS?

Gwasanaeth y CPS i ddiodefwyr yw un o werthoedd craidd y sefydliad. Ystyrir teuluoedd sydd yn galaru fel 'diodefwyr' mewn achosion o farwolaeth yn y ddalfa, a gallant gael budd o lefel uwch o wasanaeth gan y CPS.

Pan fydd y CPS yn dechrau ymwneud ac achos bydd yr erlynydd yn cysylltu â chi i egluro ei rôl yn yr achos ac yn cynnig cyfarfod cychwynnol, ble bo hynny yn addas. Bydd yr erlynydd yn egluro rôl yr ymchwiliwr a rôl yr erlynydd, y troseddau sydd dan sylw a beth fydd yn rhaid ei brofi ar gyfer pob trosedd.

Yn dilyn unrhyw gyfarfod cychwynnol, bydd cyfreithiwr y CPS yn rhoi gwybodaeth i chi (gan amlaf trwy'r ymchwilir) o gynnydd yng ngwaith y CPS, a gan amlaf yn cynnig cyfarfod cyn y gwneir y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid erlyn ai peidio.

Os yw'r erlynydd yn penderfynu y dylid erlyn, cewch wybod ac fe gewch eich diweddarw wrth i'r achos fynd yn ei flaen.

Pa gefnogaeth fydd ar gael i mi yn ystod yr ymchwiliad?

Bydd y CPS a'i bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o'r ffaith y gall y broses ymchwilio, ac unrhyw dreial posibl, yn adeg o straen enbyd i'r dioddefwyr. Yn ystod yr ymchwiliad, bydd cefnogaeth ar gael i chi trwy'r asiantaeth sydd yn ymchwilio. Yn gyntaf, bydd yr ymchwilwyr yn cynnig cwrdd â theulu y person fu farw. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r teulu sydd yn galaru i ofyn cwestiynau am amgylchiadau'r farwolaeth. Mae gennych hawl hefyd i gael cefnogaeth rheolwr cyswllt y teulu (os yw'r IPCC yn ymchwilio). Swyddogion sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig yw y rhain; byddant yn darparu gwybodaeth i chi ar faterion sydd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad, ac yn cynnig gofal arbenigol a chefnogaeth heb fod yn gyfreithiol, pe byddech ei angen.

Os yw'r CPS yn penderfynu dwyn cyhuddiadau, beth fydd yn digwydd nesaf?

Os yw person neu sefydliad yn cael eu cyhuddo o drosedd ar unrhyw gam, mae modd eu rhoi ar brawf naill ai yn llys yr ynadon neu Lys y Goron, gan ddibynnu ar y cyhuddiadau ac a ydynt yn pledio'n euog ai peidio. Mae gwybodaeth ar gael ar-lein i'ch helpu i ddeall sut mae treial yn gweithio, gan gynnwys ar wefan Farnwriaeth y Llywodraeth.

(<https://www.judiciary.gov.uk/you-and-the-judiciary/going-to-court/>).

O dan gynllun 'Victims Right to Review' (VRR) a lansiwyd gyntaf ym mis Mehefin 2013, mae gan ddioddefwyr yr hawl i gyrchu adolygiad mewnol cyfreithiol o benderfyniad y CPS i beidio â dwyn cyhuddiadau, mewn rhai achosion. Ers mis Rhagfyr 2013, mae'r cynllun wedi ei agor i 'berthnasau agos person yr achoswyd ei farwolaeth yn uniongyrchol gan ymddygiad troseddol'. Mae gwybodaeth bellach ar y cynllun VRR ar gael ar wefan y CPS

(https://www.cps.gov.uk/victims_victims_right_to_review/index.html).

Cofiwch - hyd yn oed os nad yw'r CPS yn penderfynu erlyn, gall y Gweithgor Iechyd a Diogelwch benderfynu gwneud.

Ble gaf fi afael ar gyngor pellach a gwybodaeth?

Mae digon o gefnogaeth ar gael i ddioddefwyr sydd yn canfod eu bod, yn annisgwyl, yn gorfod ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Efallai y medrwch gael cefnogaeth gan Inquest, sefydliad elusennol sydd yn hollol annibynnol o'r Llywodraeth. Mae Inquest yn darparu "gwasanaeth cyngori arbenigol, cynhwysfawr i deuluoedd galarus, cyfreithwyr, ac asiantaethau cyngor a chefnogaeth eraill, y cyfryngau, Aelodau Seneddol a'r cyhoedd yn ehangach ar farwolaethau dadleugar a'u hymchwiliadau."

Yn olaf, mae'r CPS wedi cynhyrchu arweiniad cynhwysfawr o'r enw 'Deaths in Custody: a Guide to the Role of the CPS.' Medrwch ofyn am gopi o'r arweiniad hwn yn eich cyfarfod cychwynnol gydag erlynydd y CPS.

[http: //www.inquest.org.uk/site/home](http://www.inquest.org.uk/site/home)

Am wybodaeth ynghylch Gwasanaeth Erlyn y Goron,
ac i edrych ar neu i lawr lwytho copi electronig
o'r arweiniad hwn, ewch i'n gwefan :

www.cps.gov.uk